



Derbynwyr Cronfa Argyfwng y Gwasanaethau Gwirfoddol

AR 5 MEHEFIN 2020

Enw'r Mudiad	Disgrifiad o'r gweithgaredd	Swm y dyfarniad
Hwb Cymunedol Twyn	Rydyn ni'n gofyn am arian i gefnogi galwadau ffôn llesiant, cludo bwydydd hanfodol, cludo ffrwythau a llysiau ffres a rhaglen weithgareddau ar-lein, prydau bwyd poeth wythnosol, cymorth ariannol (defnyddir sgiliau gwirfoddolwyr), arweiniad cynorthwyol a sgysiau cyfeillgar. Rydyn ni'n gobeithio ehangu hyn i sesiynau ar-lein a chymorth ar benwythnosau.	£ 60,482.08

Media Academy Cymru	<p>Cymorth 1-1 i deuluoedd a phlant a phobl ifanc â gwrthdaro cynyddol o fewn y cartref ac i rieni sy'n wynebu trais yn y cartref a gyfeirir yn uniongyrchol atyn nhw gan eu plant.</p> <p>Cefnogaeth, gwybodaeth, arweiniad a chwmsela ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n cael anawsterau emosiynol yn sgil y pandemig, gan gynnwys plant a phobl ifanc â gorbryder ynghylch eu rhieni/gofalwyr ar y rheng flaen.</p>	£ 56,281.00
Samariaid Abertawe	Bydd y gweithgareddau'n ymwneud â chymorth dros y ffôn ac ar e-bost a weithredir o'n Cangen yn Abertawe.	£ 13,958.00
Ymddiriedolaeth Plwyfi BMMR	Cafodd y prosiect Cais am Gymorth yr Eglwys mewn Argyfwng, neu CARE, ei sefydlu gan Ymddiriedolaeth Plwyfi BMMR mewn ymateb uniongyrchol i ddiwallu anghenion y gymuned yn dilyn yr achosion o goronafeirws. Bydd y grant hwn yn ein helpu i ddarparu mwy o fwyd i bobl sy'n agored i niwed yn ein hardal.	£ 43,285.98

Canolfan Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr	Mae Canolfan Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr yn darparu gwybodaeth, cymorth a chyngor ar gyfer Gofalwyr di-dâl, sy'n gofalu am anwyliaid sy'n fwyaf agored i ddal COVID-19. Mae'r Ganolfan yn parhau i ddarparu cymorth hanfodol dros y ffôn, e-bost, galwadau fideo a chyfryngau cymdeithasol ar gyfer yr holl Ofalwyr sy'n wynebu ynysu, mwy o orbryder, unigrwydd ac anawsterau ymarferol.	£ 39,644.00
Cyngor ar Bopeth Merthyr Tudful	Bydd Cyngor ar Bopeth Merthyr Tudful yn cefnogi/cynghori/helpu trigolion Merthyr Tudful yn ystod argyfwng COVID-19 drwy dîm o gynghorwyr ymroddedig/arbenigol. Bydd hyn yn cael ei ddarparu drwy linell gymorth leol bwrpasol, sgysiau ar y we a gwasanaethau fideo-gynadledda (Skype, Zoom) er mwyn eu helpu i gael yr help a'r cymorth hanfodol sydd eu hangen arnyn nhw yn ystod y cyfnod digyffelyb hwn.	£ 35,775.00

Creating Enterprise CIC	Bydd Creating Enterprise yn darparu gwasanaeth Llesiant ac Ymatebwr Cymunedol ar gyfer pobl ynysig, oedrannus ac agored i niwed sy'n byw mewn eiddo Cartrefi Conwy drwy wirfoddolwyr sy'n cynnig galwadau ffôn cadw mewn cysylltiad ac yn cludo siopa/presgripsiynau. Bydd gwirfoddolwyr hefyd yn cludo dodrefn am ddim i denantiaid mewn angen o'u prosiect dodrefn Ail Gyfle.	£ 26,696.48
ELITE Supported Employment Agency Ltd	Ein nod yw cefnogi unigolion ag anableddau / dan anfantais, sydd wedi colli'u swyddi, neu sydd mewn perygl o golli eu swyddi, drwy amrywiaeth o ddulliau cefnogi. Gallai hyn gynnwys dadlau dros fudd-daliadau llesiant, cymorth 1:1 i chwilio am waith, neu gefnogaeth i unigolion a chyflogwyr, er mwyn rhoi'r Cynllun Cadw Swyddi ar waith.	£ 60,591.77

The Centre for African Entrepreneurship	Bydd y gronfa hon yn helpu ein mudiad i fynd i'r afael ag effaith COVID-19 ar gymuned BAME Abertawe, drwy leihau ynysu, gorbryder a newyn drwy wasanaethau ar-lein a thros y ffôn pwrpasol, a gweithgareddau casglu a chludo bwyd i 200 o bobl, gan gynnwys mudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches sy'n teimlo'n ynysig.	£ 51,850.00
Home-start Cymru i Deuluoedd	Mae Home-Start Cymru i deuluoedd yn darparu cymorth gwirfoddolwyr ar gyfer teuluoedd. Yn y sefyllfa bresennol, y prif heriau i deuluoedd yw: <ul style="list-style-type: none"> • iechyd meddwl • cael gafael ar fwyd / cyflenwadau • pwysau ariannol Rydyn ni'n gweld cynydd yn y galw a byddwn ni'n cefnogi mwy o deuluoedd drwy: <ul style="list-style-type: none"> • ddarparu cymorth emosiynol rheolaidd • darparu cymorth ymarferol ar drothwy'r drws 	£ 95,928.86

Clwb Cyflogeion Panteg	<p>Cost ynni a gwasanaeth adeilad.</p> <p>Gwirfoddolwyr diodydd a byrbrydau.</p> <p>Costau tanwydd gwirfoddolwyr</p> <p>Cyfarpar Diogelu Personol - Gel. menig, ffedogau, mygydau.</p> <p>Defnydd preifat o'r ffôn gan wirfoddolwyr.</p> <p>Diogelwch cyffredinol banciau bwyd, clwb, tir, diogelwch bwyd.</p> <p>Cymorth ariannol, cyflog, ar gyfer cydlynu canolog – banciau bwyd a chanolfan ddsbarthu.</p> <p>Arian i dalu cost bwydydd ar gyfer ein cymuned.</p>	£ 38,385.99
The Shared Plate	<p>Bydd y cyllid yn ein helpu ni i allu parhau i ddarparu prydau bwyd poeth ar gyfer ein cymuned, gan gynnwys y digartref, staff y GIG, pobl hŷn ac unrhyw un arall mewn angen.</p>	£ 21,818.99

Gwasanaeth Meddyg Brys Gogledd Cymru	Bydd cyllid newydd o fudd uniongyrchol i gymuned leol Gogledd Cymru, i brynu meddyginiaethau hanfodol a chyfarpar diogelu personol i ddiogelu ein hymatebwyr. Bydd prynu peiriant a phympiau anadlu yn galluogi aelodau profiadol o'r tîm i roi tiwb i mewn i gleifion difrifol wael pan fydd amser yn brin a'u helpu i anadlu cyn iddynt gael eu trosglwyddo i'r ysbyty, a fydd yn gwella canlyniadau cleifion.	£	75,000.00
Ymddiriedolaeth Ddatblygu Corneli a'r Fro	Cynnig cymorth ar-lein a thros y ffôn i bobl hŷn, pobl sy'n agored i niwed a'r rheini sydd wedi'u gwneud yn ddi-waith yn ddiweddar. Cludo bwyd, siopa, casglu eu meddyginiaeth a chynnig rhyngweithiad cymdeithasol, gyda grwpiau crefft a sesiynau coginio'n cael eu ffrydio'n fyw a chymorth cyflogaeth un i un.	£	28,388.00
Sirhowy Community Centre Ltd	Byddai'r cyllid hwn yn sicrhau bod bwyd hanfodol ac eitemau babanod yn cael eu cludo i deuluoedd sy'n agored i niwed ac unigolion sydd wedi'u hynysu yn ystod pandemig Covid-19.	£	31,623.80

Emmaus De Cymru	Bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio i i gynnal llety'n ddiogel drwy fwy o fesurau iechyd a diogelwch a bwyd hanfodol i 16 o oedolion digartref. Bydd hefyd yn galluogi'r elusen i greu a dosbarthu 'pecynnau adloniant ynysu' ar gyfer pobl leol a lleoliadau preswyl eraill.	£ 97,550.00
Grwp Cydweithredu Cewynnau Gogledd Cymru CIC	Bydd y cyllid hwn yn helpu pawb sy'n dioddef o ansicrwydd bwyd yn Sir Wrecsam o ganlyniad uniongyrchol neu anuniongyrchol i'r coronafeirws. Hyrwyddo iechyd a llesiant cadarnhaol a lleihau'r baich ar y gwasanaeth iechyd gwladol a achosir gan ddiffyg maeth a lledaeniad y clefyd.	£ 61,312.00
Canolfan Ddydd Dwyrain Sir Faesyfed	Byddem yn hoffi cael gafael ar gyllid i'n galluogi ni i ddarparu galwadau ffôn i fonitro llesiant, gwasanaeth cludo presgripsiynau, gwasanaeth pryd ar glud a chludo siopa hanfodol. Caiff y gwasanaethau eu cynnig i unrhyw un dros 70 oed a/neu unrhyw un sy'n hunanyysu a/neu sydd wedi derbyn llythyr gwarchod.	£ 22,769.50

Age Connects Caerdydd a'r Fro	Rydyn ni eisiau cynyddu capasiti ein prosiectau gwirfoddoli er mwyn diwallu anghenion pobl hŷn sy'n gorfod hunanynysu lle nad oes ganddyn nhw unrhyw gymorth arall. Cysylltu â nhw'n rheolaidd dros y ffôn, darparu pethau hanfodol ar eu cyfer a'u sicrhau nhw nad ydynt ar eu pen eu hunain, bod help wrth law.	£ 14,943.00
Canolfannau Gofal Cristnogol Alabare	Bydd y cyllid hwn yn galluogi Alabare i gynnig cymorth diogel i fwy na 44 o gyn-filwyr y Lluoedd Arfog sy'n agored i niwed yng Nghymru sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, drwy gludo bwyd a chyfarpar diogelu personol hanfodol. Yn ystod adegau fel hyn, mae iechyd meddwl ac anghenion perthnasol ein Cyn-filwyr yn fwy dybryd nag erioed.	£ 50,700.00
Age Connects Torfaen	Mae'r Hwb Cymorth wedi'i sefydlu i helpu pobl hŷn Torfaen i ymdopi ag effaith y Coronafeirws, gan ddarparu help ymarferol, emosiynol a rhith-gymorth. Rydyn ni'n ceisio cyrraedd y bobl fwyaf ynysig, y rheini nad ydynt ag unrhyw rwydweithiau cymorth eraill ar gael iddynt yn ystod y cyfnod hwn.	£ 28,375.00

Llamau Cyfyngedig	Bydd y VSEF yn sicrhau bod pobl ifanc sy'n agored i niwed, menywod a theuluoedd a effeithir gan ddigartrefedd a thrais yng Nghymru yn parhau i fod yn ddiogel ac yn parhau i gael eu cefnogi drwy gydol argyfwng y Coronafeirws. Bydd y cyllid hwn yn cadw gwasanaethau hanfodol, rheng flaen Llamau ar agor a'u galluogi i ateb y galw cynyddol a diwallu'r angen enbyd.	£	99,938.74
Cyngor Esgobaeth Tyddewi ar gyfer Cyfrifoldeb Cymdeithasol (ar MAP fel Plant Dewi)	Cefnogi teuluoedd sydd wedi'u heffeithio'n negyddol gan argyfwng COVID-19 drwy ddarparu eitemau babanod hanfodol i rieni newydd a rhieni sy'n disgwyl a thrwy roi parseli bwyd a chymorth i deuluoedd yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro.	£	12,280.00
Ymddiriedolaeth Elusennol Stephens & George	Bydd y Grant yn cyllido Parseli Bwyd am Ddim yr Ymddiriedolaeth i gyrraedd pob cwr o Ferthyr Tudful, a bydd yn galluogi 65 o wirfoddolwyr i wneud siopa cartref i bobl agored i niwed ac wedi'u hynysu ac i gasglu presgripsiynau. Mae hon yn enghraifft	£	88,719.90

	wych o gymuned sydd â phroblem ac sy'n dod o hyd i ddatrysiad.	
Milford Youth Matters	Mae'r fenter hon yn canolbwyntio ar lesiant ac iechyd corfforol a meddyliol pobl ifanc rhwng 11-25 oed o fewn y gymuned sydd wedi'u heffeithio gan yr achosion o Goronafeirws. Galluogi unigolion i fod yn hunanymwybodol, datblygu eu cryfderau i fod yn fwy gwydn a chyrraedd eu potensial a symud o sefyllfa rheoli argyfwng i un sy'n cynnig ymyrraeth ac addysg.	£ 10,988.00
Sparkle (De Cymru) Ltd	Cyllido darpariaeth gwasanaeth seibiant bryd ar gyfer plant ag anableddau/anawsterau datblygu a'u teuluoedd yng Ngwent. I addasu Gwasanaeth Cyswllt i Deuluoedd Sparkle, gan ddarparu pwynt cyswllt ar gyfer teuluoedd agored i niwed er mwyn lliniaru'r	£ 90,709.70

	ynysu cymdeithasol a ffynhonnell i wybodaeth, cymorth a chyingor yn ystod y pandemig hwn.	
Vibe Youth CIC	Rydyn ni yn Vibe yn gobeithio y byddwn yn gallu defnyddio'r cyllid i greu platfformau ar-lein sy'n mynd ati'n uniongyrchol i fynd i'r afael â'r trallod emosiynol a achoswyd gan Covid-19. Nod Vibe yw darparu rhwydwaith cymorth ar gyfer y rheini sy'n ei chael hi'n anodd yn ystod y pandemig hwn, a byddwn yn targedu pobl ifanc, menywod agored i niwed ac aelodau o'r gymuned.	£ 20,599.10

Cymdeithas Caer Las	Bydd y cyllid hwn yn galluogi Oergell Gymunedol Symudol Abertawe i agor, a fydd yn dosbarthu bwyd am ddim i unigolion agored i niwed a/neu unigolion sy'n hunanynysu. Bydd yn darparu cyfarpar diogelu personol ychwanegol ar gyfer staff sy'n gweithio ar reng flaen ein gwasanaethau digartrefedd. Bydd hefyd yn ein galluogi ni i wella cyfleusterau hylendid a manau byw o fewn ein hostel 13 gwely.	£ 54,078.72
Llwybrau Newydd Canolfan Rhagoriaeth Therapiwtig cyfeillgar i deuluoedd	Bydd y cyllid yn ein helpu ni i gynyddu gwasanaethau hanfodol i bobl sydd wedi'u heffeithio gan dreisio a cham-drin rhywiol yng Nghymru ac yn helpu i fynd i'r afael â'r risg a'r anghenion sy'n waeth ar hyn o bryd ymhlith ein cleientiaid. Bydd hefyd yn annog mwy o bobl i geisio help drwy godi ymwybyddiaeth o'r ffaith bod ein gwasanaethau arbenigol yn parhau i redeg.	£ 81,545.00

Volunteering Matters	<p>Mae Volunteering Matters yn cynnig rhaglen wirfoddolwyr syml, ymatebol iawn i gynorthwyo pobl sy'n hunanynysu ac yn methu â gadael eu cartref yn ystod pandemig COVID-19. Mae gwirfoddolwyr yn cymryd rhan mewn rolau cymunedol, gan weithio'n hyblyg o fewn fframwaith strwythuredig er mwyn diwallu anghenion newidiol y rheini mewn perygl mwyaf.</p>	£ 58,075.00
Y Dref Werdd	<p>Cynyddu a ffurfioli gweithgareddau gwirfoddolwyr o fewn grwpiau cymunedol mewn ymateb i'r Pandemig.</p> <p>Bod yn hyblyg a gallu ymateb yn gyflym i unrhyw anghenion brys sy'n codi yn ystod y misoedd i ddod.</p> <p>Ar ôl yr argyfwng, rydyn ni'n gobeithio gosod y sylfeini, dysgu ac ymwreiddio ymdeimlad o obaith a chyd-gynhyrchu yn lle dibyniaeth.</p>	£ 65,482.00

Innovate Trust	Bydd y cynnig hwn yn ein helpu ni i gynorthwyo pobl ag anableddau dysgu i barhau i fod yn ddiogel yn eu cartrefi yn ystod y pandemig Covid 19 presennol ac i ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf i ymhel pobl mewn amrediad cyffrous o weithgareddau ar-lein arloesol a fydd yn helpu i gynnal eu hiechyd a lles cyffredinol.	£ 47,884.00
Cerebral Palsy Cymru	Cynnal gwasanaethau therapi a chymorth hanfodol i blant a theuluoedd sy'n byw â pharlys yr ymennydd, yr anabledd corfforol mwyaf cyffredin ymhlith plant, ar adeg pan fo anghenion dwys a mynediad at wasanaethau arferol wedi'i leihau'n fawr. Lleihau effaith Covid-19 ar gymuned o oddeutu 1800 o blant sydd eisoes yn agored i niwed.	£ 99,937.36

Canolfan Maerdy	<ul style="list-style-type: none"> - prynu bwyd ychwanegol yn ôl y gofyn gan FairShare Cymru - oeri/rhewi/coginio ychwanegol - darllenwyr cardiau a chostau trafodion - treuliau gwirfoddolwyr i'r rheini sy'n siopa a thrafnidiaeth hanfodol - Gofynion cyfarpar diogelu personol/hylendid - rhan o gostau'r staff yn sgil cynorthwyo plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed. 	£ 17,002.00
The Gellideg Foundation Group	Darparu gwasanaethau hanfodol ar gyfer y rheini mewn angen ac mewn perygl o dlodi bwyd, gan gynnwys; prydau bwyd cartref, bagiau gofal, cymorth lles, casglu presgripsiynau, cyfeirio at asiantaethau argyfwng eraill a rhith-raglen lesiant i bobl ifanc yn ystod pandemig Covid-19 ac ar ôl hynny.	£ 59,399.45

Elusen Credu Cyf	<p>Cefnogaeth i Grŵp Strategaeth Covid 19 Porthcawl gludo meddyginiaethau neu fwyd hanfodol. Galluogi ymateb cymunedol i bandemig Covid 19.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnig cymorth i unigolion mewn angen arbennig. • Cynnig cymorth i bobl agored i niwed nad ydynt o fewn y grŵp targed fel dewis olaf am gymorth. 	£ 13,294.80
Plant y Cymoedd	<p>Mae Cynllun Bocs Cinio Plant Am Ddim Plant y Cymoedd yn rhoi bwyd am ddim i blant sy'n wynebu tlodi bwyd o ganlyniad i Covid-19.</p> <p>Bydd Cynllun Caredigrwydd Cymunedol Plant y Cymoedd yn cynorthwyo unigolion wedi'u hynysu i ailgysylltu â'u ffrindiau a'u cymuned yn ddigidol drwy gymorth unigol a grwpiau gweithgaredd.</p>	£ 74,196.00
Yr Eglwys Unedig yn y Rhyl: Canolfan ASK	<p>Fel y cyfeiriwyd ato yng Nghwestiwn 23, y prif beth y byddwn ni'n ei wneud yn ystod cyfyngiadau symud Covid 19 fydd darparu parseli banc bwyd brys ar gyfer pobl agored i niwed yn ein hardal a gaiff eu cyfeirio atom gan ein Partneriaid ac asiantaethau eraill.</p>	£ 12,493.18

Age Connects Morgannwg	Ni ddylai'r un person hŷn fod heb fwyd, mynediad at feddyginiaeth na llais cyfeillgar gofalgar. Bydd ein gwirfoddolwyr yn sicrhau pobl hŷn, er eu bod yn teimlo wedi'u hynysu, nad ydynt ar eu pen eu hunain.	£ 18,640.10
Cymdeithas Cymuned Gilfach Goch Cyfyngedig	Mae Cymdeithas Cymuned Gilfach Goch yn cynnig Gwasanaeth Cyngor a Gwybodaeth COVID 19, ac yn dosbarthu basgedi bwyd, bocsys ffrwythau a llysiau, prydau bwyd poeth, taflenni gwybodaeth, pecynnau gweithgareddau therapiwtig, pecynnau gweithgareddau i blant a phobl ifanc a grwpiau cyfryngau cymdeithasol er mwyn lleihau teimladau o unigrwydd ymhlith pob grŵp oedran.	£ 98,006.68

Tasglu Ymateb Cymunedol Accredilink Cyf	<p>Tanwydd Hyfforddiant Cyfarpar Diogelu Personol Defnyddiau meddygol Iwnifformau Cardiau adnabod a chostau rhedeg sylfaenol sy'n cynyddu yn sgil y galw am ein gwasanaeth. Mae'r rhestr o gleientiaid gwasanaeth yn cynnwys mwy na 300 o bobl yn y gymuned fel ag yr oedd heddiw.</p>	£ 10,490.00
Canolfan Gymunedol Stow Park	<p>Bydd Canolfan Gymunedol Stow Park yn rhedeg ei Fanc Bwyd er mwyn lleddfu newyn a chaledi eithafol i bobl sydd wedi'u taro'n ariannol gan y Coronafeirws. Bydd hefyd yn darparu bwyd/prydau wedi'u paratoi i'r rheini nad ydynt yn gallu gadael eu cartrefi. Pan fydd y cyfyngiadau symud wedi codi, bydd gwirfoddolwyr yn annog pobl i ddychwelyd i'w trefniadau cymdeithasol arferol.</p>	£ 18,420.00

Mosg Abertawe	<p>Bwydo 200 o bobl yn ystod Ramadan.</p> <p>Bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw yn cael ei gludo gan Fosg Abertawe.</p> <p>Bydd pecynnau bwyd Halal yn cael eu paratoi gan gogyddion ardystiedig, gan gadw at ganllawiau cadw pellter cymdeithasol. Dim ond aelodau cymeradwy o'r tîm fydd yn cael mynd i mewn i'r gegin i baratoi/pecynnu'r prydau bwyd. Bydd y prydau bwyd yn cael eu casglu drwy system gyfyngedig.</p>	£ 18,030.00
Cronfa Paul Popham, Aren Cymru	Byddwn yn cynnig gwasanaethau cymorth gan gymheiriaid dros y ffôn ac ar-lein i gleifion arenol yng Nghymru, yn ogystal â chronfa argyfwng.	£ 26,873.60
Vesta - Cymorth Arbenigol i Deuluoedd CIC	Hoffem redeg llinell gymorth ar gyfer trais domestig ymhlith teuluoedd o Wlad Pwyl sy'n byw yng Nghymru. Byddai'n galluogi dioddefwyr a phobl sy'n niweidio i gael help yn eu mamiaith mewn adeg o argyfwng. Byddem hefyd yn cynnig cwnsela iddynt er mwyn gwella eu hiechyd meddwl a'u llesiant.	£ 20,214.15

Canolfan Gofalwyr Abertawe	<ul style="list-style-type: none"> •Rhoi cymorth uniongyrchol i ofalwyr er mwyn gwella/cefnogi eu llesiant eu hunain •Cyflwyno grwpiau cymorth gan gymheiriaid er mwyn lleihau ynysu/unigrwydd •Addysg/Hyfforddiant i wella iechyd meddwl / cymryd seibiant •Nodi'r anghenion nas diwallwyd ymhlith teuluoedd •Cynrychioli gofalwyr/aelodau o'r teulu mewn cyfarfodydd er mwyn sicrhau bod eu llais / anghenion yn cael eu clywed •Cynnig galwadau ffôn cefnogol gan wirfoddolwyr hyfforddedig, gan sicrhau bod gofalwyr yn parhau i fod mewn cyswllt â rhywun os ydyn nhw'n teimlo wedi'u hynysu 	£ 16,302.00
----------------------------	---	-------------

<p>The Hill Community Development Trust Ltd</p>	<p>Bydd y cyllid yn cefnogi'r aelodau hynny o'r gymuned a effeithiwyd yn fawr gan bandemig Covid-19 drwy:</p> <p>gynnal cysylltiadau o fewn y gymuned dros y ffôn a thrwy gyfryngau cymdeithasol;</p> <p>prynu a storio bwyd i'w ddosbarthu i drigolion agored i niwed sydd wedi'u hynysu.</p> <p>darparu prydau bwyd poeth ar gyfer y rheini nad ydynt yn gallu coginio drostyn nhw'u hunain.</p>	<p>£ 12,262.47</p>
<p>Hafal</p>	<p>Darparu eitemau cyfarpar diogelu personol hanfodol i'n gweithlu ledled Cymru sy'n gofalu am blant ac oedolion ag anableddau, anhwylderau corfforol cronig neu salwch meddwl difrifol, yn y gymuned, yn eu cartrefi ac mewn lleoliadau cleifion mewnol. Bydd hyn yn ein galluogi i weithio'n ddiogel, gan ddiogelu ein defnyddwyr gwasanaethau agored i niwed a'n tîm staff.</p>	<p>£ 19,282.00</p>

Menter Effaith Gymunedol C.I.C.	Mae'r Cii yn darparu cymorth critigol i aelodau mwyaf agored i niwed ac ynysig ein cymuned. Mae'n cefnogi'r rheini sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir, y rhai sydd wedi'u hynysu'n gymdeithasol, o gefndiroedd cam-drin domestig a chyda phroblemau dibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol. Mae Cii yn ymateb i'r galw cynyddol i ddarparu cymorth ac arweiniad hanfodol ar iechyd meddwl a llesiant.	£ 18,285.00
Plwyf Treharris Trelewis Bedlinog a Llanfabon	Drwy sicrhau cyllid, byddwn ni'n gallu cynnig prosiect addas i'r diben a fydd yn gallu darparu cymorth brys mewn argyfwng. Cludo parseli bwyd / eitemau hylendid hanfodol mewn argyfwng, darparu mynediad at fwyd bob wythnos a sefydlu a gweithredu banc bwyd newydd.	£ 31,690.00
Canolfan Pentre CIO	Pecynnau gofal i'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymuned sy'n gorfod aros yn eu cartrefi am gyfnod o amser er mwyn cadw'n ddiogel.	£ 6,338.81

Gofal a Thrwsio Cymru	Gyda'r cyllid, mae Gofal a Thrwsio eisiau prynu cyfarpar diogelu personol hanfodol er mwyn parhau i wneud gwaith trwsio ac addasu brys, er mwyn hwyluso'r gwaith o ryddhau cleifion o'r ysbyty a sicrhau y gall pobl hŷn fyw mewn cartrefi diogel.	£ 66,354.50
Cynon Valley Organic Adventures	Rydyn ni'n cynnig datblygu porth dysgu achrededig ar-lein ar gyfer pobl ifanc ag anghenion dysgu neu anghenion cymorth ymddygiad ychwanegol a grwpiau eraill sy'n agored i niwed, gan ehangu hwn yn raddol i werthu cyrsiau proffesiynol ledled Cymru. Rydyn ni hefyd yn rhedeg banc bwyd, mewn cysylltiad â nifer o fudiadau eraill, ac yn darparu oddeutu 120 o barseli bwyd yr wythnos.	£ 10,500.00
Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol	Bydd cyllid gan y VSEF yn galluogi gwirfoddolwyr a staff hyfforddedig y Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol i gynnig cymorth hanfodol i bobl hŷn ledled Cymru. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau y gall pobl gael mynediad at apwyntiadau meddygol hanfodol, cael rhywun i gasglu nwyddau groser ac	£ 23,218.58

	eitemau cartref a chefnogaeth dros y ffôn er mwyn cynnig cwmnïaeth a gwneud gwiriadau lles.	
Pembrokeshire FRAME	Bydd y prosiect 'Gofalwn' yn gweld gwirfoddolwyr Pembrokeshire FRAME yn gwirfoddoli gyda The Green Shed Cafe i baratoi a chludo prydau bwyd poeth a bagiau bwyd Community Fridge am ddim i bobl agored i niwed mewn perygl uchel o ddal Covid 19, er mwyn i bobl wybod nad ydynt wedi cael ein hanghofio yn ystod y pandemig.	£ 61,932.00

Age Cymru Powys	<p>Gwasanaeth cynghori lleol a chyfrinachol dros y ffôn ar gyfer pobl hŷn lleol sy'n agored i niwed, eu teuluoedd, ffrindiau, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol a darpariaeth wyneb yn wyneb i bobl ag anableddau nad ydynt yn gallu cael gfael ar hwn. Mae'n gweithredu ledled Powys ac yn hygyrch i bawb.</p> <p>Hybiau brys gwasanaeth torri ewinedd traed a sesiynau cymunedol ychwanegol ledled 10 cymuned</p>	£ 41,461.00
Local Solutions	<p>Byddwn ni'n cefnogi pobl ifanc, menywod a theuluoedd digartref ledled Gogledd Cymru yr ydym eisoes yn gweithio gyda nhw drwy ddarparu llechi a mynediad i'r rhyngwyd er mwyn lleihau ynysu; paratoi ein staff i weithio o bell; cael gwared â'r rhwystrau i gael gfael ar lety camu ymlaen a chreu rhith-hwb lle gall pobl gael mynediad at gymorth ar-lein.</p>	£ 53,422.00

Cymorth Cymunedol Llanfair-ym-Muallt	Bydd y cyllid yn galluogi'r rhai hynny mewn perygl o COVID-19 yn ardal ehangach Llanfair-ym-Muallt, sydd yng nghyffiniau ardal practis meddygol Llanfair-ym-Muallt a Llanwrtyd, sy'n gwasanaethu'r ardal ddaearyddol fwyaf yng Nghymru, i dderbyn amrediad o wasanaethau cymorth a fydd yn sicrhau eu diogelwch.	£ 24,700.00
Mind Cymru	Bydd Monitro Gweithredol yn galluogi pobl o bob rhan o Gymru â phroblemau iechyd meddwl cyffredin i gael cymorth cyflym strwythuredig sy'n seiliedig ar CBT dros y ffôn er mwyn lliniaru effeithiau CV19, gan gynnwys gofid, gorbryder, iselder a galar, a fydd yn atal eu problemau iechyd meddwl rhag gwaethygu ac yn lleihau'r baich ar feddygfeydd teuluol a gofal sylfaenol.	£ 537,316.30
Creations of Cymru Film and Media (yn masnachu fel Cymru Creations)	Bydd hwn yn galluogi Tasglu Cymunedol Tredegar a'u tîm o wirfoddolwyr ymroddedig i gludo eitemau hanfodol fel siopa a meddyginiaeth am ddim i drigolion agored i niwed Tredegar ac ardal amgylchynol Blaenau Gwent.	£ 28,080.00

Neuadd Eglwys St Gwladys	Bydd trigolion ledled Cwm Rhymini sydd wedi'u hymyleiddio ac yn agored i niwed yn derbyn cymorth cymdeithasol a bydd parseli bwyd a phethau ymolchi wythnosol yn cael eu cludo i aelwydydd sy'n hunanynysu ac sydd heb rwydweithiau cymorth cymdeithasol i'w helpu ac i aelwydydd sydd ag incwm is oherwydd yr effeithiau ariannol ar eu cyflogwyr.	£ 23,549.70
MEDSERVE Cymru	Byddai cyllid yn ein galluogi i gael gafael ar gyflenwadau digonol o gyfarpar diogelu personol ar gyfer ein gwirfoddolwyr, rhai untro a rhai y gellid eu hailddefnyddio, a sicrhau bod ein cerbyd ymateb pwrpasol yn gallu cael gwaith cynnal a chadw hanfodol.	£ 8,220.00

ACE - Action In Caerau And Ely	Bydd ACE yn defnyddio ac yn cefnogi gwirfoddolwyr lleol i gymryd camau mewn ymateb i argyfwng Covid-19, gan drechu newyn ac ynysu cymdeithasol, a'r effeithiau iechyd meddyliol corfforol i'r rhai mwyaf agored i niwed. Bydd hyn yn ymwneud â chydlynu â phartneriaid i ehangu ein gwasanaeth cludo bwyd, a darparu help ymarferol a chefnogaeth emosiynol.	£ 37,934.72
Gweithredu ar Gam-drin yr Henoed (yn masnachu fel Hourglass)	Datblygu llinell gymorth Hourglass Cymru, sy'n cefnogi pobl hŷn mewn perygl o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso neu sy'n cael eu cam-drin a'u hesgeuluso, waeth a yw'r cam-drin hwnnw'n cael ei gyflawni gan aelodau o'r teulu, partneriaid, cymdogion, gweithwyr cyflogedig proffesiynol neu ddieithriaid, a gwneud y gwasanaeth yn gynaliadwy. Mae'r llinell gymorth yn darparu cefnogaeth emosiynol, cyngor, cyfeirio a help gyda chyfeirio at fudiadau diogelu oedolion.	£ 45,485.96

Age Cymru Gwent	Bydd gwasanaeth siopa Age Cymru Gwent yn cynorthwyo pobl hŷn 50+ oed ym Mwrdeistref Casnewydd a Chaerffili sydd wedi'u hynysu ac yn agored i niwed i gael nwyddau groser a meddyginiaeth yn ystod Covid-19 gan staff ymroddedig. Yn ogystal, bydd gwirfoddolwyr yn darparu cymorth holistaidd dros y ffôn er mwyn cynorthwyo â dewisiadau maethol, gwell llesiant a gwydnwch ar gyfer bod yn annibynnol yn y dyfodol.	£ 24,817.00
Uned Ddiogelwch Cam-drin Domestig Gogledd Cymru	Bydd y cyllid hwn yn sicrhau y bydd ein gwasanaeth yn cynorthwyo'r holl blant a phobl ifanc sy'n wynebu cam-drin domestig yn Sir y Fflint a Sir Ddinbych. Bydd y cyllid hwn hefyd yn sicrhau y gallwn fuddsoddi mewn cyfarpar gwella diogelwch i alluogi goroeswyr a'u plant i aros yn eu cartrefi eu hunain yn ddiogel.	£ 55,950.00

Tîm Cymorth Ieuencid Ethnig	Llinell gymorth BAME-Covid19 genedlaethol, aml-iaith a ddarperir gan bartneriaeth rhwng EYST, Women Connect First, Henna Foundation a Rhanddeiliaid BAME eraill i ddarparu gwasanaeth atgyfeirio a chyfeirio ar gyfer pobl BAME er mwyn iddynt gael cyngor arbenigol, mudiadau prif ffrwd a chymunedol. Nod y llinell gymorth yw cefnogi 1000 o bobl yn ystod y 6 mis cyntaf.	£ 93,162.60
TGP Cymru	I ddarparu allgymorth brys, a chymorth, cyngor a gwybodaeth dros y ffôn a thrwy fideo-gynadledda er mwyn helpu ceiswyr lloches a ffoaduriaid ifanc, pobl ifanc mewn gofal / gyda phrofiad o fod mewn gofal a phobl Roma'r UE i gael clust i wrando arnynt ac i fod yn ddiogel ac yn wydn yng ngŵydd epidemig COVID 19.	£ 66,700.00

Archesgobaeth Caerdydd	Mae Archesgobaeth Gatholig Caerdydd yn arwain Mesurau Ymateb Cymunedol i gefnogi unigolion 'mewn perygl' mewn deg awdurdod lleol yng Nghymru. Gan fanteisio ar gymorth ein gwirfoddolwyr rheolaidd, rydyn ni'n ceisio gwella iechyd meddwl pobl a darparu hanfodion sylfaenol ar gyfer unigolion hŷn ac unigolion agored i niwed.	£ 138,260.00
Parkinsons UK Cymru	Darparu cymorth uniongyrchol dros y ffôn, ar alwadau fideo a thrwy e-byst ar gyfer pobl â chlefyd Parkinson sy'n ynysu ledled Cymru ac sydd angen gwybodaeth a chymorth wedi'i bersonoli i fyw'n dda drwy gydol yr argyfwng hwn. Mae Cyngorwyr Parkinson's UK Cymru yn helpu i leihau ynysu, yn cynnig cefnogaeth emosiynol, yn gwneud cysylltiadau o fewn cymunedau lleol ac yn helpu pobl i gael gafael ar fudd-daliadau.	£ 41,224.02

Canolfan Datblygu Cymunedol De Glan yr Afon	1 Pantri Cymunedol – gwasanaeth cludo bwyd; 2 Tyfu bwydydd y gellir eu bwyta yng ngerddi/iardiau pobl; 3 Gwneud cyfarpar diogelu personol ar gyfer darparwyr gofal cymdeithasol yng Nghaerdydd a'r Fro; 4 Cylchlythyr penodol Covid-19 i'r gymuned. Popeth wedi'u targedu at y rheini sy'n gorfod hunanynysu.	£ 44,604.00
The Centre for Building Social Action Limited	Bydd y cyllid yn galluogi CBSA i gynyddu ei allu i ddsbarthu bwydydd sy'n weddill o fewn cwmpas o ddeng milltir o dref Llanelli. Mae'r ymweliadau hefyd yn system rhybuddio cynnar i ni, sy'n ein galluogi i nodi unrhyw anghenion cymorth eraill y gellir eu diwallu.	£ 37,100.21
Age Cymru Gorllewin Morgannwg	Bydd cyllid CGGC yn sicrhau y gall Age Cymru Gorllewin Morgannwg gludo 100 o brydau bwyd poeth, maethol y diwrnod i gartrefi pobl hŷn sy'n agored i niwed o fewn Port Talbot, Castell-nedd a chymunedau amgylchynol. Bydd y grant yn grymuso staff a gwirfoddolwyr i gynnal y gwasanaeth hwn	£ 68,742.00

	heb amserau cludo hir a heb amharu ar y gwasanaeth.	
Cyngor Ffoaduriaid Cymru	Bydd Cyngor Ffoaduriaid Cymru yn darparu gwasanaeth gwaith achos cymorth a chyngor newydd am ddim dros y ffôn ar gyfer ceiswyr lloches a ffoaduriaid sydd newydd gael eu statws ledled Cymru yn ystod achos y coronafeirws a bydd yn talu am gynnydd y rhagwelir mewn taliadau caledi i geiswyr lloches a ffoaduriaid yn sgil achos y coronafeirws.	£ 18,512.45
Your Space (Marches) Limited	Ein galluogi ni i gynyddu ein gallu i gefnogi teuluoedd drwy waith allgymorth, trwy sicrhau bod ein gwirfoddolwyr yn hyderus ac yn cael eu cefnogi Sicrhau ein bod wedi ein paratoi i'r eithaf i barhau	£ 18,005.00

	â'n gwaith gyda'n cymuned yn yr oes "normal" newydd	
Cymdeithas Gymuned Butetown	Parhau â hwb dosbarthu bwyd Canolfan Gymunedol Butetown, sy'n darparu parseli bwyd brys i'r rheini mewn angen yn ystod argyfwng y Coronafeirws, a'i wella, ynghyd â datblygu datrysiadau cynaliadwy ar gyfer tlodi bwyd. Drwy weithio gyda grwpiau lleol, rydyn ni'n dosbarthu rhoddion o fwyd a pethau ymolchi ac yn cefnogi llawer o ddiwylliannau gwahanol yn y gymuned.	£ 20,321.98
ISKCON Cymru	Bydd y cyllid hwn yn sicrhau nad yw unrhyw un yng Nghaerdydd, Abertawe, Casnewydd na'r Cymoedd yn wynebu tlodi bwyd. Rydyn ni wedi cludo dros 15,000 o brydau bwyd ers 20 Mawrth ac yn parhau i gludo hyd at 800 o brydau bwyd bob dydd.	£ 98,250.00

Cymorth i Ferched Cymru	Bydd y cyllid yn galluogi Cymorth i Ferched Cymru i fynd gam ymhellach yn ei ymateb strategol ac uniongyrchol hanfodol i'r sector trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru yn ystod pandemig COVID 19, sy'n peri i rai o haelodau mwyaf agored i niwed ein cymdeithas fod mewn mwy o berygl.	£ 76,928.00
Congolese Development Project	Rydyn ni'n chwilio am gyllid i ddarparu parseli bwyd ar unwaith ar gyfer teuluoedd sy'n cael anawsterau ariannol yn ystod pandemig Covid 19, casglu a chludo presgripsiynau a bwyd i bobl hŷn sydd wedi'u hynysu a phrynu cynhyrchion hylendid i alluogi buddiolwyr i ddarparu prydau bwyd i'w teuluoedd, cynnal safonau uchel o hylendid ac atal heintio	£ 49,156.12

<p>Platfform ar gyfer newid</p>	<p>Bydd Platfform yn darparu gwasanaethau seicolegol, gan gynnwys cwnsela, sesiynau llesiant ac adnoddau iechyd meddwl i gefnogi iechyd meddwl a llesiant gweithwyr GIG ac unigolion sydd wedi'u heffeithio gan Covid-19 yng Nghaerdydd a'r Fro.</p> <p>Byddwn ni'n darparu cymorth lles ac adnoddau ar gyfer pobl â heriau iechyd meddwl ledled Caerffili a Blaenau Gwent.</p>	<p>£ 87,738.49</p>
<p>Cwmni Cydweithredol Cartrefi Cymru Cyf</p>	<p>Prynu cyfarpar diogelu personol, sicrhau bod pobl agored i niwed ledled Cymru'n cael budd o staff sydd â chyfarpar diogelu personol priodol, sicrhau nad yw ein staff rheng flaen yn rhoi eu hunain/eu teuluoedd mewn perygl diangen wrth barhau i gyflawni dyletswyddau hanfodol, sy'n golygu na fyddwn ni, fel Darparwr Cymorth Cenedlaethol, yn poeni'n ormodol ynghylch costau cynyddol.</p>	<p>£ 84,261.00</p>

Mirus Cymru	Bydd y cyllid yn ein helpu ni i gynnal a gwella ein gwasanaethau gofal a chymorth i bobl ag anableddau dysgu, drwy gyllido Cyfarpar Diogelu Personol. Bydd y cyllid hefyd yn helpu ein staff, gwirfoddolwyr a'r bobl rydyn ni'n eu cynorthwyo i gadw mewn cysylltiad â'r mudiad, teulu, ffrindiau a rhwydweithiau cymdeithasol.	£ 76,629.06
Cymdeithas Multiple Sclerosis (MS)	Gwella llesiant emosiynol a chorfforol pobl ag MS ledled Cymru gyda phortffolio ar-lein diogel o weithgareddau cymdeithasol a chorfforol sydd wedi'u teilwra i'n cymuned. Bydd yn cynnwys ymarferion dan arweiniad rhywun proffesiynol, sesiynau cymdeithasol a arweinir gan gymheiriaid a galluogi pobl ag MS i fod yn gorfforol egniol, i gysylltu â chymheiriaid yn ddigidol a chael eu cefnogi'n emosiynol.	£ 49,360.32

Cwmni Cydweithredol Gofal Cymunedol CIC	<ul style="list-style-type: none"> • Cynnal y Tîm Iechyd a Llesiant Emosiynol drwy fuddsoddi mewn amser/rolau staff. • Ehangu ein rhwydwaith gwirfoddolwyr • Datblygu ein Platfformau Digidol a Chymuned Ar-lein, sy'n hanfodol i wella'r mynediad i holl Gefnogaeth Iechyd Meddwl CCC, gan gynnwys mynediad at CAMHS a gofal brys. • Cynyddu'r capasiti i gynnig darpariaeth gwrsela 1.1 	£ 92,799.12
Eye to Eye	Cyflogi cwnselydd i gynnig cefnogaeth a chyswllt parhaus ar gyfer pobl ifanc agored i niwed sy'n cael eu cyfeirio yn ystod cyfnod COVID, gan gynnwys cymorth, cyngor a chyfeirio, byddwn yn datblygu ein gwefan i gynnwys sgwrs a fydd yn rhoi'r gallu i bobl ifanc gael gfael ar ein gwasanaeth yn haws.	£ 22,548.00

<p>Gwasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot</p>	<p>Bydd yn darparu ymwybyddiaeth gyhoeddus ac yn cefnogi llawer o'n 2000+ o ofalwyr cofrestredig yng Nghastell-nedd Port Talbot drwy ddarparu offer hunangymorth a chefnogaeth emosiynol a seibiant er mwyn osgoi argyfwng a methiant i ofalu Mae hyn mewn ymateb i'n harolwg parhaus, lle roedd 80% o'r ymatebwyr yn teimlo bod angen cwnsela arnyn nhw.</p>	<p>£ 72,921.85</p>
<p>Plwyf St Thomas a Kilvey</p>	<p>Mae'r cyllid ar gyfer ehangu a pharhau â Hwb Dosbarthu Bwyd Eglwys St Thomas, sy'n dosbarthu nwyddau banc bwyd bob dydd, yn dosbarthu bwyd sy'n weddill, yn cludo prydau bwyd ysgol am ddim ac yn dosbarthu nwyddau sylfaenol ar gyfer babanod.</p>	<p>£ 27,442.00</p>

<p>Cymdeithas Tai Merthyr Tudful Cyf</p>	<p>Darparu pecynnau gweithgareddau wythnosol ar gyfer babanod, plant oed ysgol gynradd a'r rheini sy'n hunanynysu oherwydd salwch.</p> <p>Darparu parseli bwyd teuluol bob wythnos ar gyfer y rheini nad ydynt yn gallu cael prydau bwyd ysgol am ddim gan fod y rhieni wedi'u rhoi ar ffyrlo neu eu trosglwyddo i gredyd cynhwysol.</p> <p>Bydd cyfleoedd gwirfoddoli yn parhau drwy ddulliau digidol.</p>	<p>£ 15,850.00</p>
<p>Cymorth i Fenywod Caerdydd</p>	<p>Cynnal, gwella ac addasu cymorth mewn argyfwng a chymorth cymheiriaid i oroeswyr trais/camdriniaeth er mwyn lleihau perygl a thrawma. Lleihau ynysu cymdeithasol a chynnal cymuned o oroeswyr cryf gan ddefnyddio amrywiaeth o offer digidol a fydd yn helpu i gyrraedd menywod dan gyfyngiadau symud sydd wedi'u dal gyda'u camdrinwyr ac ar ôl y cyfyngiadau symud.</p>	<p>£ 44,570.00</p>

Cerrig Camu Gogledd Cymru	Bydd y cyllid yn ein helpu ni i gyflawni darpariaeth gwasanaethau cwnsela a chefnogi dros y ffôn a thrwy ddulliau eraill o bell, gweithgareddau a deunyddiau ar-lein a chymorth ymarferol i ddiodefswyr a goresgynwyr cam-drin plant yn rhywiol, eu teuluoedd a'u gofalwyr yn ystod cyfyngiadau symud COVID 19 a hyd oni y gallwn ddychwelyd i'n busnes arferol.	£ 59,800.00
Ymddiriedolaeth Gwaith Cymdeithasol Byddin yr Iachawdwriaeth	Bydd y cyllid yn ein galluogi i brynu a dosbarthu bwyd ac eitemau hanfodol eraill er mwyn helpu i ddiwallu anghenion sylfaenol aelodau mwyaf agored i niwed ein cymunedau sydd wedi'u taro galetaf, gan gynnwys pobl ar incymau isel, pobl ddigartref a'r rheini sy'n hunanynysu gyda chyflyrau iechyd ac anghenion gofal.	£ 100,000.00

Prosiect Ieuencid Dinbych	Cludo bwyd ffres ac eitemau cartref hanfodol i deuluoedd a phobl ifanc sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi'n ariannol â diwallu eu hanghenion sylfaenol neu'n hunanynysu oherwydd cyflyrau iechyd. Cymorth ychwanegol i deuluoedd a phobl ifanc rhwng 11-25 oed, gan gynnwys anableddau gydag anawsterau corfforol, cymdeithasol, emosiynol, meddyliol ac ymddygiadol.	£ 10,270.00
Cymdeithas Bangladeshi Caerdydd	Byddem ni'n darparu adnoddau addysgol ar gyfer plant ysgolion cynradd ac uwchradd sy'n defnyddio ein gwasanaeth. Pecynnau bwyd i deuluoedd anghenus.	£ 10,130.40
92		£ 4,745,045.59